

16.12.22

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ar ddiwedd tymor prysur a llwyddiannus, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol eto eleni. Rydym fel staff wedi gwerthfawrogi'r negeseuon o gefnogaeth a'r diolch rydym wedi eu derbyn gan ein rhieni. Mae yna ormod o lwyddiannau disgyblion i'w rhestru, ond mae brwdfrydedd ac ymdrechion cyson ein disgyblion i'w ganmol unwaith eto! Mae eu cyfraniad at fywyd yr ysgol yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan eu bod yn mynychu'n ddyddiol gyda chwarteisi, hiwmor a gwên! Maent yn destun balchder i ni gyd!

Gwych oedd gweld cefnogaeth ein disgyblion at **elusen Latch** ddydd Iau diwethaf, sydd yn cefnogi un o'n disgyblion, Emily ym Mlwyddyn 11. Rydym wedi codi dros £750 yn barod, gyda mwy gobeithio wrth i ni gynnig hamperau dosbarthiadau Blwyddyn 7 fel gwobrau raffl. Bydd yr elw unwaith eto yn mynd at elusen wych Latch. Gweler y [llythyr yma](#) am wybodaeth bellach o sut allwch gyfrannu at, a phrynu tocyn ar gyfer ennill un o'r hamperau arbennig yma!

Mae disgyblion blynyddoedd 10-13eg bellach wedi derbyn naill eu **hadroddiadau interim neu llawn** a bydd disgyblion blynyddoedd 7-9 yn derbyn eu hadroddiadau interim wythnos nesaf. Rwy'n siŵr y bydd yr adroddiad yn gyfle i chi drafod cynnydd, ymdrechion ac agwedd eich plentyn at ei ddysgu ac hefyd yn gyfle i ddatlu dwi'n siŵr! Os ydych am drafod adroddiad eich plentyn, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni.

Gyda chynnydd yn y nifer o **achosion o iGAS a'r dwymyn goch** yn ein cymunedau, defnyddiwch y [wybodaeth yma](#) ar gyfer cyngor pellach neu gwiriwch y ddolen yma: [Cymorth newydd i rieni ar Strep A wrth i GIG 111 Cymru gael llif o alwyr pryderus. - lechyd Cyhoeddus Cymru](#)

Edrychwn ymlaen at groesawi ein holl rieni i'r Gwasanaeth Nadolig eleni yng Nghapel y Tabernacl yn Nhreforys r nos Lun y 19eg o Ragfyr - bydd croeso cynnes i bawb!

Gyda'r Nadolig yn brysur agosáu, byddwn yn **gorffen yn gynt ar ddydd Gwener y 23ain**, gyda bysys yr ysgol yn gadael am 12:45 i gludo disgyblion adref.

Byddwn yn **ail agor i bob disgybl ar ôl y gwyliau ar ddydd Llun y 09.01.23**. Edrychwn ymlaen at groesawu ein disgyblion yn ôl i'r ysgol ar gyfer tymor prysur iawn unwaith eto.

Gaf i ddymuno Nadolig Llawn a diogel i chi a Blwyddyn Newydd yn llawn gobaith a llwyddiant!

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net](mailto:SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth: Mr Simon Davies



**BUDDSODDWR**  
**MEWN POBL**

Aur



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net](mailto:SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth: Mr Simon Davies

